



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	23 Mai 2018
TEITL	Cyfrifon Terfynol GwE 2017/18 – Alldro Refeniw
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar sefyllfa ariannol derfynol cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2017/18.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiadau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2017/18 yma fel Atodiad A**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro".
- 1.2 Adroddwyd yn yr adolygiad 3ydd chwarter amcangyfrif tanwariant net o (£40,345) yn erbyn y gyllideb.
- 1.3 Y sefyllfa derfynol ydi gorwariant net o £67,206, gyda'r rhan ddilynol o'r adroddiad yn egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**

Terfynol: gwir tanwariant (£20,207). (Chwarter 3: tanwariant rhagwelwyd (£64,589)).

Adroddwyd yn Chwarter 3 bod trosiant staff gan gynnwys effaith ailstrwythuro Medi 2017 a'r cyfnod pryd roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn swydd dros dro a rhan amser (Ebrill a Mai 2017) wedi arwain at danwariant un tro.

Mae costau gostau ychwanegol staffio ynghlwm i absenoldebau mamolaeth/salwch a lleihad yn yr hyn trosglwyddwyd yn erbyn Prosiectau Penodol wedi lleihau'r tanwariant rhagwelwyd yn chwarter 3.

2.2 **Adeilad - Rhent:**

Terfynol: gwir gorwariant £38,116. (Chwarter 3: gorwariant rhagwelwyd £29,750).

Adroddwyd yn Chwarter 3 ar orwariant gan fod y GwE wedi adleoli ei swyddfa ardal Fflint/Wrecsam o'r 1af o Fedi, gyda'r gost flynyddol yn uwch na chost y swyddfa flaenorol (effaith 7 mis am eleni sydd wedi ei gynnwys uchod). Mae angen adnabod dull ariannu parhaol ar gyfer y cynnydd cost blwyddyn gyfan.

Mae diffyg cyrraedd targedau defnydd adeiladau GwE gan brosiectau penodol, a chostau hurio stafelloedd eraill wedi cynyddu'r gorwariant ychydig.

2.3 **Cludiant – Costau Teithio:**

Terfynol: gwir tanwariant (£15,025). (Chwarter 3: tanwariant rhagwelwyd (£5,506)).

Mae tuedd costau teithio hanesyddol yn awgrymu bod y gwir gost flynyddol yn debygol o fod ychydig yn is na'r hyn sydd wedi ei sefydlu yn y gyllideb.

2.4 **Cyflenwadau a Gwasanaethau:**

Terfynol: gwir gorwariant £38,066: (Chwarter 3: ni ragwelwyd gor na thanwariant).

Oherwydd anawsterau penodi cyfieithydd dros dro, a gofynion ychwanegol rhai Prosiectau Penodol, cynyddwyd defnydd o gyfieithwyr allanol.

Rhagwelir gorwariant ar y pennawd 'Ffioedd Archwilio' yn unol â sefyllfa archwiliad blaenorol.

2.5 **Broceriaeth:**

Terfynol: gwir gorwariant £4,552: (Chwarter 3: ni ragwelwyd gor na thanwariant).

Gwelir man gorwariant ar y pennawd.

2.6 **Prosiectau penodol: gwir gorwariant net £25,736: (Chwarter 3: ni ragwelwyd gor na thanwariant)**

Mae'r gwasanaeth yn ymwneud â nifer o brosiectau penodol a gyllidir o ffynonellau allanol, gan gynnwys grantiau. Mae arian sylweddol ar gael (£12,679,455 yn 2017/18) gydag amodau caeth a therfyn amser gwario cyfyngedig. Gwelir man gorwariant ar rhai prosiectau.

3. CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2017/18 oedd (£738,572).

3.2 Mae cynllun busnes y GwE yn cynnwys defnyddio £399,750 yn ystod 2017/18.

Blaenoriaeth Cynllun Busnes	
Safonau	£140,500
Cwricwlwm ac Asesu	£62,500
Arweinyddiaeth	£102,750
Lles	£13,000
Addysgu	£36,000
Adleoli swyddfa	£45,000

3.3 Mae defnydd o'r gronfa £399,750 a'r gorwariant net o £67,206 yn lleihau'r gronfa wrth gefn i £271,616 ar ddiwedd 2017/18.

3.4 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer pontio unrhyw elfen o'r targed arbedion (£36,879) a'r diffyg rhent (£11,000), os ni all GwE ddarganfod yr holl arbedion yn ystod 2018/19.

ATODIADAU

Atodiad A: Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2017/18

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.